To: Responsible Officers

15 July 2020

Dear Responsible Officer,

Invitation to join on-line workshop on developing guidance

We received feedback from awarding bodies during our review of the Standard Conditions of Recognition that guidance would be useful to support understanding and ongoing compliance.

The following topics were identified:

1) The role of the Responsible Officer
2) D6 – Management of the change in the status or withdrawal of qualifications
3) A7 – Management of incidents
4) A8 – Malpractice and maladministration
5) A4 – Conflicts of Interest and use of 'personal interest'
6) I1.2 – Independent reviewers for appeals
7) F1 – Information on fees of qualifications

We are now starting to develop this guidance and would like to invite you to provide feedback during the drafting process through a series of on-line workshops.

We are planning to hold around four workshops on-line from September to January 2021, which will focus on one or two topics at a time. At the first workshop we will seek feedback on the topics in general and discuss the style and format of guidance you would prefer; and will discuss draft guidance on the role of the Responsible Officer.

We are also aware of related workstreams including Ofqual's consultations on draft guidance and JCQ's commission on malpractice. Therefore, we are planning to work on any guidance in these areas later in the year.

We would also like to take this opportunity to let you know that following the publication of our strategy for increasing the availability of Welsh-medium qualifications, Choice for All, we are going to draft guidance to support awarding bodies with developing, delivering and awarding bilingual qualifications – in Welsh and English. We already have an Awarding Body

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Welsh Language Support Group and will be using this forum to discuss draft guidance and share good practice more generally. If you do not currently have a representative and would like to contribute to this guidance, or if you or somebody in your organisation has expertise in bilingual or multilingual assessment perhaps in an international context, then we would also encourage you to contact us.

If you would like to participate or would like to nominate a representative to join either one or both groups, please send the name and contact details to policy@qualificationswales.org, by 5.00pm on Friday 24 July 2020 please.

We will then send out a poll to agree a date for the first on-line workshop.

If you have any questions, please contact policy@qualificationswales.org.

Yours sincerely,



Dr Rachel Heath-Davies
Head of Regulatory Policy

At: Swyddogion Cyfrifol

15 Gorffennaf 2020

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Gwahoddiad i ymuno â gweithdy ar-lein ar ddatblygu canllawiau

Cawsom adborth gan gyrff dyfarnu yn ystod ein hadolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol y byddai canllawiau yn ddefnyddiol i gefnogi dealltwriaeth a chydymffurfiaeth barhaus.

Nodwyd y pynciau canlynol:

1) Rôl y Swyddog Cyfrifol
2) D6 – Rheoli'r newid mewn statws cymwyster neu dynnu cymwysterau'n ôl
3) A7 – Rheoli digwyddiadau
4) A8 - Camymddwyn a chamweinyddu
5) A4 - Gwrthdaro Buddiannau a defnyddio 'buddiant personol'
6) I1.2 - Adolygwyr annibynnol ar gyfer apeliadau
7) F1 - Gwybodaeth am ffioedd cymwysterau

Rydym bellach yn dechrau datblygu'r canllawiau hyn a hoffem eich gwahodd i roi adborth yn ystod y broses ddrafftio drwy gyfres o weithdai ar-lein.

Rydym yn bwriadu cynnal pedwar gweithdy ar-lein rhwng mis Medi a mis Ionawr 2021, a fydd yn canolbwyntio ar un neu ddau o bynciau ar y tro. Yn y gweithdy cyntaf, byddwn yn gofyn am adborth ar y pynciau yn gyffredinol ac yn trafod arddull a fformat y canllawiau y byddai'n well gennych; a byddwn yn trafod canllawiau drafft ar rôl y Swyddog Cyfrifol.

Rydym hefyd yn ymwybodol o ffrydiau gwaith cysylltiedig gan gynnwys ymgynghoriadau Ofqual ar ganllawiau drafft a chomisiwn y CGC ar gamymddwyn. Felly, yr ydym yn bwriadu gweithio ar unrhyw ganllawiau yn y meysydd hyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi gwybod i chi y byddwn, ar ôl cyhoeddi ein strategaeth ar gyfer cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg, Dewis i Bawb, yn llunio canllawiau drafft i helpu cyrff dyfarnu i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau dwyieithog – yn Gymraeg a Saesneg. Mae gennym Grŵp Cymorth Cymraeg ar gyfer Cyrff Dyfarnu eisoes a byddwn yn defnyddio'r fforwm hwn i drafod canllawiau drafft a rhannu arfer da yn fwy cyffredinol. Os nad oes gennych gynrychiolydd ar hyn o bryd a'ch bod am gyfrannu at y canllawiau hyn, neu os oes gennych chi neu rywun yn eich sefydliad arbenigedd mewn asesu dwyieithog neu amlieithog efallai mewn cyd-destun rhyngwladol, yna byddem hefyd yn eich annog i gysylltu â ni.

Os hoffech gymryd rhan neu os hoffech enwebu cynrychiolydd i ymuno â naill ai un grŵp neu'r ddau, anfonwch yr enw a'r manylion cyswllt at policy@qualificationswales.org, erbyn 5.00 pm ddydd Gwener 24 Gorffennaf 2020 os gwelwch yn dda.

Byddwn wedyn yn anfon pôl ar-lein i gytuno ar ddyddiad ar gyfer y gweithdy ar-lein cyntaf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â policy@qualificationswales.org.

Yn gywir,



Dr Rachel Heath-Davies
Pennaeth Polisi Rheoleiddio